

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru	
Dyddiad y Cyfarfod:	Dydd Mawrth 16 ^{eg} Gorffennaf 2019
Amser y Cyfarfod:	9:00am – 3.30pm
Lleoliad y Cyfarfod:	Gogledd-ddwyrain Cymru – The Glynne Arms – Hawarden
Cadeirydd	Andy Richardson

YN BRESENNOL:

<p>Llywodraeth Cymru:</p> <p>Andrew Martin (AM) Dave Morris (DM) Mark Williams (MW) Alison Ebsworth (AE)</p> <p>Ymddiheuriadau: Keith Smyton (KS)</p>	<p>Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru:</p> <p>Andy Richardson (AR) – Cadeirydd Alison Lea-Wilson (ALW) yn rhedeg yn hwyr Annitta Engel (AE) Huw Thomas (HT) James Wilson (JW) Justine Fosh (JF) Katie Palmer (KP)</p> <p>Ymddiheuriadau: David Lloyd (DL) Norma Barry (NB)</p>
<p>Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd:</p> <p>Ro Roberts (RR) Levercliff Associates Ltd Buddug Turner (BT) Llywodraeth Cymru Enfys Jones (EJ) Llywodraeth Cymru Alun Lewis (AL) BIC Innovation Linda Grant (LG) BIC Innovation James Hicks (JH) Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod Louise Codling (LC) Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod</p>	

Rhif	EITEMAU AR YR AGENDA
1.	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p style="text-align: right;">Andy Richardson</p> <ul style="list-style-type: none"> Nododd y cadeirydd bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan KS, DL ac NB. Croesawodd AR bawb i'r cyfarfod a diolch i bawb am fod yn bresennol. Diolchodd hefyd i'r rheini a oedd wedi mynychu'r cyfarfod clwstwr y noson cynt, a oedd wedi bod yn gyfle da iawn i

	<p>rwydweithio. Y gobaith yw y bydd modd gwneud hyn eto mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Croesawodd AR RR yn ôl hefyd, sydd wedi cael ei gontractio i gynnal gwaith cysylltiadau cyhoeddus Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. • Soniodd AR yn gryno am gynnwys y cyfarfod.
2.	<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2019 Mark Williams</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y rhain wedi cael eu rhannu cyn y cyfarfod <p>Materion yn Codi/Diweddariadau o'r Cofnodion</p> <p>Camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol</p> <p>Cam Gweithredu 1 – (NB) – E-bost wedi'i anfon. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 2 – (NB) – fel yr uchod. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 3 – Blas Cymru/Taste Wales 2019 – Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 4 – Trafodaeth ar Strategaeth y Bwrdd – i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 5 – Y Gynhadledd Gyllid/Rhaglen Parod am Fuddsoddiad – i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 6 – Cynadleddau – i'w trafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 7 – Cynhadledd Twf/Ehangu Chwefror 2020 – i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 8 – Y Prif Faterion ar gyfer Cynhadledd Blas Cymru/Taste Wales yn y dyfodol – neb wedi gofyn i (AR) fod yn bresennol.</p> <p>Cam Gweithredu 9 – I'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 10 – I'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 11 – I'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad (LG).</p> <p>Cam Gweithredu 12 – Grid Cyfathrebu/Calendr Digwyddiadau parhaus – Parhaus (GJ) yn rhannu gyda phawb. (RR) i gael sgwrs gyda (GJ) – Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 13 – Cynnwys y Dangosfwrdd Cyflawni – Angen Sylw (MW).</p> <p>Cam Gweithredu 14 – Swyddogaeth y Dangosfwrdd Cyflawni – Angen Sylw (MW).</p> <p>Cam Gweithredu 15 – Dangosfwrdd Cyflawni, Eitem ar yr Agenda ar gyfer Cyfarfod Gorffennaf – Angen Sylw (MW).</p> <p>Cam Gweithredu 16 – Cyfarfodydd nesaf Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn 2019 – Cwblhawyd 16^{eg} Hydref 2019 De-ddwyrain Cymru, Ifor Ffowcs Williams yn bresennol. Cwblhawyd.</p> <p>4^{ydd} Rhagfyr 2019 i'w gadarnhau. Angen Sylw (MW) Angen trefnu dyddiadau 2020 cyn gynted ag y bo modd. Angen Sylw (MW).</p> <p>Cam Gweithredu 17 – Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan fater Bwrdd y Dyfodol (AR).</p>

Cam Gweithredu 18 – Noson Clwstwr cyn Cyfarfod y Bwrdd. **Cwblhawyd** a bydd y digwyddiad yn parhau i gael ei gynnal ym mhob un o Gyfarfodydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, gyda chyfnod o 2 funud ar gyfer rhwydweithio un i un. Ymestyn hyn y tu hwnt i'r clystyrau ac i fusnesau newydd. Dim mwy na 50 o unigolion.

Cam Gweithredu 19 – Strategaeth Sgiliau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. **Cwblhawyd.** (JF) Eitem ar yr Agenda yng Nghyfarfod nesaf y Bwrdd i weld faint o hyfforddiant a busnes a grewyd, (LG) i adrodd yn ôl.

Angen Sylw.

Cam Gweithredu 20 – Prinder Sgiliau i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan Strategaeth Sgiliau (JF).

Cam Gweithredu 21 – Cyllido Prentisiaethau – (JF) wedi siarad â Choleg Sir Benfro ynglŷn â chyllid, sydd wedi cynyddu i £15k erbyn hyn. Nid oedd diweddariad ynghylch peirianeg. **Angen Sylw (JF).** Papur byr yn cael ei rannu â'r Bwrdd.

Cam Gweithredu 22 – Cyllido Prentisiaethau **Angen Sylw (JF).**

Cam Gweithredu 23 – Prentisiaethau. **Diweddarwyd.**

Cam Gweithredu 24 – Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol – i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan Strategaeth Sgiliau (JS).

Cam Gweithredu 25 – *Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn herio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ynghylch y sefyllfa o ran bwyd a diod* – (JF) wedi ysgrifennu llythyrau pwrpasol at y tair Partneriaeth. **Angen Sylw.**

Cam Gweithredu 26 – Gwahodd y Tîm Polisi Sgiliau i'r cyfarfod nesaf – **Angen Sylw (MW)** Nic Shilton/Jenny Gerrard i ddod i'r cyfarfod. I'w ddwyn ymlaen fel eitem ar agenda Cyfarfod mis Hydref **Angen Sylw (MW).**

Cam Gweithredu 27 – Partneriaeth Sgiliau Diwydiant – **Angen Sylw (DL)** – dim adborth wedi dod i law, dwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

Cam Gweithredu 28 – Cyfarfod IGD, (JF) yn mynychu cyfarfod ym mis Medi 2019.

Cam Gweithredu 29 – Digwyddiad Sgiliau Sioe Frenhinol Cymru – **Cwblhawyd.**

Cam Gweithredu 30 – Addasu i Heriau'r Diwydiant, e.e. Cynllun y Cymoedd. **Parhaus** Cam peilot (Trafod hyn mewn cyfarfod gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Sioe Frenhinol Cymru 2019) (JF) (AM).

Cam Gweithredu 31 – Ffrwd Waith y Cyngor Bwyd a Diod. **Angen Sylw (AR)** Anfon cyflwyniad o gyfarfod diwethaf y Cyngor.

Cam Gweithredu 32 – **Perchnogaeth o Gynllun Gweithredu 2** – i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen o dan Diweddariad ar Gynllun Gweithredu 2.

Cam Gweithredu 33 – Fersiwn Ddrafft o Gynllun Gweithredu 2 i gael ei anfon i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru am sylwadau. **Cwblhawyd.**

Cam Gweithredu 34 – Fersiwn Ddrafft Cynllun Gweithredu 2. **Cwblhawyd.**

Cam Gweithredu 35 – CG2 – Cyhoeddiad Sioe Frenhinol Cymru. **Cwblhawyd.**

Cam Gweithredu 36 – CG2 – Digwyddiadau Ymgynghori Sioe Frenhinol Cymru. **Cwblhawyd.**

Cam Gweithredu 37 – Ymgysylltu â swyddogion HCC ac Ymgynghori ar Gynllun Gweithredu 2. **Cwblhawyd.**

	<p>Cam Gweithredu 38 – Datganiad ar y cyd rhwng Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a Llywodraeth Cymru – Cynllun Gweithredu 2. I'w gwblhau yr wythnos nesaf yn Sioe Frenhinol Cymru 2019.</p> <p>Cam Gweithredu 39 – Gwerthoedd Brand Cynaliadwy (SBV) – Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 40 – Cwmpas Terminoleg Bwyd-amaeth i gynnwys Bwyd Môr. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 41 – Gwerth Emosiynol SBV. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 42 – SBV – cynigiwyd grŵp bach o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i drafod diffiniad Cynnyrch o Gymru – Angen Sylw. (DM) RV/JB i rannu gwybodaeth a chynnal telegynadleddau o bosibl. Rhannu rhagor o adborth yng Nghyfarfod mis Hydref.</p> <p>Cam Gweithredu 43 – Ôl-drafodaeth am Blas Cymru/Taste Wales 2018. Cwblhawyd</p> <p>Cam Gweithredu 44 – Strategaeth Bwyd Môr. Cwblhawyd. (Nodir nad oedd presenoldeb cyfreithiol yn y cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru). Mynd ar drywydd y camau gweithredu o'r Cyfarfod M&F a gynhaliwyd yn ddiweddar – dim cofnodion wedi dod i law hyd yn hyn.</p> <p>Cam Gweithredu 45 – Strategaeth Diodydd – Ail-edrych ar strategaeth y Clwstwr Diodydd. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 46 – Strategaeth Diodydd – Alinio gweithgareddau'r Clwstwr â Chynllun Gweithredu 2 Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 47 – Strategaeth Diodydd – cwmpasu nawr er mwyn cefnogi mwy o fusnesau. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 48 – Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru 2019 Angen Sylw (KP) Gwybodaeth heb gael ei hanfon – dwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Cam Gweithredu 49 – Pythefnos Bwyd Prydeinig 21-9 – 6-10-2019. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 50 – Tendr Cyfathrebu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru – Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 51 – Tendr Cyfathrebu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. MA i'r Gweinidog. Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 52 – Opsiwn Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i drosglwyddo aelodaeth y Bwrdd presennol i 2019/20 – Cwblhawyd.</p> <p>Cam Gweithredu 53 – Sut mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn gweld Clystyrau ac a ydynt yn gyrru busnes yn ei flaen. Mae (AM) newydd gomisiynu gwerthusiad pwysig o bob clwstwr. Parhaus.</p> <p>Cam Gweithredu 54 – Cyfarfod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru mis Hydref 2019. Ifor Ffowcs Williams i gael gwahoddiad. Cwblhawyd (MW).</p> <p>Cam Gweithredu 55 – Cyfarfod gydag Ifor Ffowcs Williams. Cwblhawyd.</p>
	<p>Cofnodion 24^{ain} Ebrill 2019</p> <p>Cynigydd: - David Morris (Llywodraeth Cymru)</p> <p>Eilydd: - Alison Lea Wilson (Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru)</p>

3.

Strategaeth Sgiliau

- ❖ Y diweddaraf am y Strategaeth Sgiliau – cwblhawyd ac angen sylw
- ❖ Y diweddaraf ar Sgiliau Bwyd Cymru Lantra
- ❖ Y diweddaraf am Tasty Careers
- ❖ Y diweddaraf am addewidion

Justine Fosh

Papurau a rannwyd yn y cyfarfod.

(1) Cynllun Sgiliau ar y wefan

Mae angen edrych ar ba mor amlwg yw'r cynllun oherwydd nid yw'n amlwg ar y wefan ac mae'n anodd gwybod lle'n union y mae.

Mae angen nodi'r 4 thema'n glir.

Mae'r arweinydd newydd ar sgiliau wedi ymuno â Llywodraeth Cymru – Jenny Gerrard.

Bydd yr elfen Rhyngwyneb Busnes yn dal i gael ei harwain gan y Tîm Busnes, a bydd yr elfen Bolisi'n cael ei harwain gan y Tîm Polisiâu, gyda Nic Shilton yn swyddog arweiniol gyda chymorth gan Jenny Gerrard.

Mae angen diweddarau'r Dirprwy Weinidog i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

Mae prentisiaethau'n cael eu diwygio yng Nghymru.

Yn gryno, mae fframwaith prentisiaethau Cymru yn cael ei ail-ddylunio. Bydd y fframweithiau newydd yn debycach i'r hyn a welir yn Lloegr. Bydd y newidiadau hyn yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a byddant yn effeithio ar y diwydiant Bwyd a Diod. Byddwn yn cael rhagor o eglurder yn hyn o beth yn ystod y 2-3 mis nesaf. (JF) i gael mwy o wybodaeth ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

Llywodraeth y DU – y diweddaraf am y system mewnfudo seiliedig ar sgiliau. Mae Llywodraeth y DU yn mynd i ymgynghori a gofyn am farn am y trothwy cyflog. Y cynnig yw £30k fel isafswm cyflog ar gyfer y rheini sy'n dod i mewn i'r DU. Mae hyn yn rhy uchel i'r Diwydiant Bwyd a Diod, lle mae llawer o weithwyr sy'n gwneud swyddi medrus yn ennill llai na £30k. Codwyd hyn yn y Cyngor Bwyd a Diod a bydd yn cael ei drafod ymhellach. Byddai modd ail-alinio'r trothwy yn ôl gwahanol lefelau sgiliau ac ardaloedd daearyddol.

Cynllun Sgiliau – Papurau wedi'u rhannu yn y cyfarfod.

Mae 40 o lysgenhadon wedi cael eu hyfforddi ar draws y Diwydiant Bwyd a Diod – mae gweithgareddau'n cael eu cynnal ond mae'n anodd eu cofnodi gan nad oes llawer o adborth yn dod i law. Nid oes dangosydd perfformiad allweddol yn cael ei gofnodi. Pa fesurau yr ydym yn mynd i'w rhoi ar waith er mwyn cofnodi'r wybodaeth hon? Mae'n rhaid i CG2 gynnwys sgiliau – canlyniadau a dangosyddion perfformiad allweddol.

3.1.3 Diweddariad Cyswllt Ffermio a Sgiliau Bwyd Cymru (Prosiect dan arweiniad Lantra)

Rhoddyd diweddariad cryno yn y cyfarfod.

Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod – Cyflwyniad a Diweddariad ar Weithgynhyrchu

- Cynllun Sgiliau – mae llawer o bethau'n digwydd. Mae enghreifftiau da yn y sector llaeth.
- Gyrfaoedd – prentisiaethau – swyddi (cael pobl i fyd gwaith). Penodol i'r sector neu thematig. Nifer o sectorau, gweithwyr i edrych ar bartneriaethau sgiliau.
- Nod i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod, i ddenu pobl ac i hyfforddi'r gweithlu i gyd-fynd ag anghenion y sector.
- Sgiliau Bwyd Cymru a chynlluniau ar y cyd.
- Peirianeg – Chwefror 2019, Coleg Sir Benfro, yn dechrau ym mis Medi 2019. Monitro cynnydd. Cyflwyno dros 3 blynedd. £15K dros 3 blynedd o'i gymharu â £27k yn Lloegr. Cyllid yng Nghymru drwy ardoll Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes darparwyr yng Ngogledd Cymru; mae'n rhaid i Golegau Addysg Bellach Iunio Achos Busnes
- Mae sgiliau'n dal yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Mae angen rhagor o gyllid ac adeiladu ar arferion gorau, fel ISP Llaeth.
- Addewid – 45 o gwmnïau wedi cofrestru. Gwahanol weithgareddau – teithiau o amgylch ffactrioedd bwyd (teithiau i blant ysgol gynradd (8, 9, 10 oed) sy'n rhoi cyfle iddynt fynd o amgylch y safle). Pwy fydd yr 50^{fed} Busnes? Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn Sioe Frenhinol Cymru 2019. Mae'r nifer ar hyn o bryd yn 47 – mae gan (LG) 2 fusnes arall. (AM i edrych ar y rhestr a helpu i nodi'r 50fed).
- Arolwg Ysgolion – rhaid cynnwys cwestiynau am les, bwyd ac ati.
- Dylai'r 40 Llysgennad a hyfforddwyd fod yn ymweld ag ysgolion erbyn hyn i siarad am y diwydiant bwyd a diod ac am eu gyrfaoedd a'u siwrnai bersonol – mae angen nodi'r gweithgaredd hwn.
- Mae unigolion Gyrfa Cymru wedi cael eu hyfforddi ar y rhaglen llysgennadon, sydd wedi eu helpu i ddeall pa fath o swyddi sydd ar gael yn y diwydiant. Y bwriad yw y bydd Gyrfa Cymru wedyn yn hybu gyrfaoedd yn y diwydiant bwyd.
- Y Rhaglen Tasty Careers – rhaglen newydd yma yng Nghymru sy'n gweithio gyda phobl ddi-waith. Mae'n cynnwys nifer o fodiwlau hyfforddi a lleoliadau gwaith. Mae'n rhaid i swydd fod ar gael ar ddiwedd y rhaglen hyfforddi. Mae budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cael eu diogelu. Mae'n cychwyn yn yr ystafell ddosbarth, cyn symud ymlaen i'r gweithle. Mae 5 cwmni'n cymryd rhan yn y rhaglen hon. Mae'n rhaid i'r Adran Gwaith a Phensiynau ymwneud â phob rhanbarth ar wahân er mwyn gwneud yn siŵr nad yw unigolion yn colli eu budd-daliadau. Mae rhagor o drafodaethau wedi'u cynllunio ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru 2019.
- KF – mae ysgolion yn amrywio o ran ymgysylltu ar sgiliau. Gall ysgolion weithio gyda Gyrfa Cymru. Hefyd, mae Gareth Thomas (CLILC) yn gyswllt defnyddiol i ysgolion. Mae angen deall lle mae'r llysgennadon wedi'u lleoli ac adeiladu ar y cyswllt. Mae Cymru'n

	<p>mabwysiadu model Gatsby sy'n mesur addysg gyrfaoedd mewn ysgolion.</p> <p>Cynnig yr NSA yw dal ati i ddatblygu a chynnal yr hyb sgiliau. Datblygu clustffonau VR a mynd â'r rhain i ysgolion. Bydd lefel cyllid Llywodraeth Cymru yn ystod y 6-12 mis nesaf yn dylanwadu'n sylweddol ar yr amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn cael eu cyflwyno a sut yn union y byddant yn edrych.</p> <p>Mae statws coch yn y cynllun yn golygu nad oes dim wedi cael ei wneud neu fod pethau ar stop ar hyn o bryd. Prentisiaeth Gwyddorau Bwyd – angen edrych ar hyn eto yng nghyfarfod mis Hydref. Cynllun Pasbort – ar stop ar hyn o bryd.</p>
<p>4.</p>	<p>Cyfathrebiadau Brexit</p> <p style="text-align: right;">Andy Richardson</p> <p>Rhoddodd (AR) adborth i'r cyfarfod. Dywedodd nad oes dim byd wedi digwydd dros y 3 mis diwethaf. Roedd cyfarfod y Cyngor Bwyd a Diod wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gyda Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a dywedwyd yn glir bod y siawns o Brexit caled yn fwy byth erbyn hyn. Yr wythnos nesaf, byddai'r Prif Weinidog newydd yn cael ei gyhoeddi. Roedd (AR) o'r farn na fyddai dim yn digwydd tan ddiwedd Awst, ac yna y byddai popeth yn newid o fis Medi ymlaen. Roedd (AR) yn teimlo mai cyfrifoldeb y Bwrdd oedd gwneud yn siŵr bod busnesau Bwyd a Diod yn ymwybodol o hyn ac yn gwneud paratodau lle bo angen. Mae rhai busnesau wedi cynllunio'n dda iawn, tra mae eraill yn gwneud dim byd. Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu at fusnesau yn ystod mis Medi 2019, gan ddweud pethau fel y maen nhw. Bydd yn llythyr ar y cyd gan y Bwrdd a'r Gweinidog.</p> <p>Mae gwefan Bwyd a Diod Cymru wedi cael ei diweddarau ac mae 246 o ymatebion wedi dod i law. Rhoddodd (AM) y wybodaeth ddiweddaraf am y pwyntiau allweddol canlynol. Ar ôl lansio'r adnodd diagnostig yn 2018, roedd 275 o brosesau diagnosteg wedi cael eu cwblhau hyd yma. O'r ffigur hwn roedd 246 yn ymateb i gwestiynau Brexit.</p> <p>Roedd 35% o fusnesau'n nodi bod pobl yn gwario llai. Roedd 40% yn poeni am dariffau ac allforio.</p> <p>Roedd 40% yn bryderus am gael gafael ar gynhwysion a 42% yn bryderus am gynnydd mewn costau cynhwysion.</p> <p>Dylai'r llythyr gan y Bwrdd ganolbwyntio ar 2 neu 3 maes pwysig. Ydych chi'n fusnes sy'n allforio? Ydych chi'n mewnfario? Ydych chi'n mewnfario deunydd pecynnu ac ati?</p> <p>Mae manwerthwyr yn ei chael yn anodd paratoi ac mae storfeydd yn llawn yn barod. Does dim modd i lawer o fusnesau gynyddu costau. Maent wedi ymrwymo mwy o wariant i baratoi y gwanwyn diwethaf ac yn methu fforddio i wneud hynny eto.</p> <p>Mae archfarchnadoedd wedi paratoi'n barod – maent wedi paratoi rhagolygon ar gyfer Brexit ac yn pentyrru stoc yn barod.</p>

	<p>Mae busnesau'n lobbio eu Haelodau Seneddol, nid eu Haelodau Cynulliad, gan eu bod yn tybio y bydd lefel y dylanwad yn uwch yn Llundain nag yng Nghymru.</p> <p>Bwriad Cyllid Pontio'r UE Llywodraeth Cymru yw cyllido darnau mawr o waith i wella gwytnwch economi Cymru ar ôl Brexit.</p>
<p>5.</p>	<p>Cynllun Gweithredu 2 – Lansio a'r Wybodaeth Ddiweddaraf Buddug Turner</p> <p>Diolchodd (AR) i (BT) am ddod ac am ddiweddarau'r Bwrdd am Gynllun Gweithredu 2 ac am ei lansiad wythnos nesaf. Diolchodd (BT) i aelodau'r Bwrdd am eu hadborth cadarnhaol ynghylch Cynllun Gweithredu 2. Mae'r ddogfen yn 44 tudalen o hyd a bydd copi caled ar gael yn y Lansiad. Bydd copi ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd dogfen ymgynghori yn cael ei rhoi i'r Bwrdd yn barod cyn y Sioe. Bydd yn cael ei rhannu â'r wasg, gan y bydd datganiad i'r wasg yfory, sef 17^{eg} Gorffennaf 2019.</p> <p>Dewiswyd Sioe Frenhinol Cymru fel y lleoliad a'r amser priodol ar gyfer Lansio Cynllun Gweithredu 2, gan mai hon yw'r sioe amaethyddol fwyaf ond un yn Ewrop, gyda ffigurau presenoldeb uchel. Cytunwyd y byddai dydd Mawrth 23^{ain} Gorffennaf am 10.30am yn yr Ardal Sgiliau (Yr Hen Neuadd Fwyd) yn lleoliad ac yn amser delfrydol. Mae'r lleoliad yn gallu dal 70 o westeion (fel theatr). Bydd ffilm o 6 astudiaeth achos sy'n rhoi sylw i fusnesau bwyd a diod yn cael ei dangos. (Siaradwyd â'r busnesau hyn dros y 12 mis diwethaf). Bydd dau siaradwr gwadd, sef William Watkins (Hyfforddiant Sgiliau a Phrentisiaethau) a Ffion Davies, Cymraes a fydd yn sôn am ei gyrfa yn y diwydiant. Yn dilyn hyn, bydd Andy Richardson yn dod â'r cyfan i ben ac yn rhoi gair o ddiolch, yn ogystal ag anerchiad byr. Bydd David Lloyd Thomas yn agor sesiwn Holi ac Ateb. Bydd y Gweinidog yn bresennol ar gyfer y lansiad ac yn rhoi anerchiad byr.</p> <p>Mae tua 200 o randdeiliaid o bob rhan o'r diwydiant bwyd wedi cael gwahoddiad. Mae 60 wedi derbyn hyd yn hyn. Bydd y digwyddiad lansio'n cael ei ffilmio a'i olygu at y dyfodol, a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Byddai modd ffrydio'r digwyddiad yn fyw ar y wefan bwyd a diod hefyd.</p> <p>Yn dilyn ymlaen o lansiad Cynllun Gweithredu 2, bydd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori'n cael eu trefnu. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.</p> <p>Datganiad i'r wasg swyddogol cyn y digwyddiad – diddordeb yn y wasg</p> <p>Bydd y ddogfen yn mynd yn fyw fore dydd Mawrth, a bydd ar gael ar ein gwefan gorfforaethol ar ôl hanner nos ar y dydd Llun. Bydd erthygl yn y cylchlythyr bwyd a diod nesaf. Gofynnwyd i aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru gysylltu â chynifer o fusnesau bwyd a diod ag y bo modd yng nghyswllt Cynllun Gweithredu 2.</p> <p>Nifer o negeseuon pwysig o safbwynt yr ymgynghori</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Partneriaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru • Adeiladu ar y Cynllun Gweithredu blaenorol • Diwydiant Bwyd a Diod cryf a llewyrchus yng Nghymru • Dwyn budd i bobl yn ein cymdeithas – datblygu sgiliau'r gweithlu ac ati • Enw da i Gymru ledled y byd <p>Diolchodd (AR) i (BT) am y cyflwyniad a rhestru nifer o bwyntiau pwysig.</p> <p>(1) Roedd yn cytuno bod hon yn ddogfen ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant a bod angen proffil cytbwys gan y Gweinidog a'r Bwrdd.</p> <p>(2) Nid yw anerchiad (AR) wedi cael ei ysgrifennu eto, y Tîm Polisiâu i helpu i amlinellu nifer o bwyntiau allweddol.</p> <p>(3) Rheoli'r sesiwn holi ac ateb ar y diwrnod.</p> <p>(4) Rheoli'r Wasg. A ddylid cynnal cynhadledd i'r wasg ar wahân ar ôl y lansiad, a chynnig mynediad at y Bwrdd a'r Gweinidog. Cytunwyd y byddai'n syniad da dod â'r digwyddiad i ben am 11.15am a mynd i ystafell ar wahân i gynnal cynhadledd i'r wasg.</p>
6.	<p>Sioe Frenhinol Cymru – Diweddariadau a Chynlluniau</p> <p style="text-align: right;">Enfys Jones</p> <p>Rhannwyd diweddariad yn y cyfarfod</p> <p>Sioe Frenhinol Cymru 2019 – mae dau leoliad yn y Sioe eleni. Yn ogystal â'r Lolfa Fusnes mae gennym Ardal Sgiliau erbyn hyn, a fydd wedi'i lleoli yn yr Hen Neuadd Fwyd.</p> <p>Bydd y Lolfa Fusnes yn cael ei defnyddio ar gyfer MASNACH YN UNIG eleni, ac wedi'i chyfyngu i ddim ond cynhyrchwyr a phrynwyr. Ar hyn o bryd, bydd 250 o gwmnïau a 1,000 o gynhyrchion yn cael eu harddangos. Byddwn yn parhau i ddefnyddio thema Blas Cymru. Mae dros 200 o brynwyr wedi cael gwahoddiad. A bydd nifer o brynwyr mwy yn bresennol hefyd. Nid ar gyfer manwerthu'n unig y bydd hwn, ond yn gyffredinol – manwerthu – siopau fferm – gwestai ac ati.</p> <p>Menter a Busnes yw ein prif gontractwyr yn 2019. Bydd Cinio VIP yn cael ei gynnal gyda'r Co-op ar y nos Lun – bydd (AR) a (DM) yn mynd i'r cinio gyda'r Gweinidog ac ychydig o swyddogion. Y gobaith yw y bydd hyn yn agor drysau newydd.</p> <p>Ardal Sgiliau 2019.</p> <p>A hithau wedi'i rhannu'n ddwy ran, bydd ardal sgiliau ac Adran Gynadledda, lle bydd cyhoeddiadau pwysig yn cael eu gwneud. Bydd yr ardal yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd hefyd. Rydym yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid ar hyn o bryd – yr Academi Sgiliau Genedlaethol, Hyfforddiant Cambrian – ac ati. Bydd llawer o weithgareddau ymarferol ar gyfer pobl sy'n ystyried dilyn gyrfa yn y sector Bwyd a Diod. Y contractwr yw BIC Innovation, a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r diwydiant bwyd a diod.</p>

	<p>Bydd y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn cynnwys blasu synhwyrdd, ffotograffiaeth bwyd, celf coffi, bragu ac ati.</p> <p>Gofynnwyd i aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru gyfrannu, gan siarad â phobl a oedd â diddordeb, a chymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau. Mae cylchrediad eang o wahoddiadau wedi cael eu hanfon ledled Cymru i ysgolion, clybiau ffermwyr ifanc ac ati.</p> <p>O ran yr Addewid Sgiliau, y gobaith yw y byddwn yn gallu lansio'r 50fed yn y Sioe.</p> <p>Bydd cyswllt â'r Lolfa Fusnes er mwyn i brynwyr allu mynd i mewn a chael eu tywys o amgylch yr Ardal Sgiliau.</p> <p>Ar hyn o bryd, gallwn ddweud y bydd 5 o Weinidogion yn bresennol dros y pedwar diwrnod.</p> <p>Bydd sesiwn friffio'n cael ei chynnal bob bore am 8.00am.</p> <p>Bydd Llysgenhades y Sioe 2019, Emily Davies – gyrfaoedd yn y sector Bwyd a Diod – yn bresennol ar y prynhawn dydd Mawrth ac yn codi proffil y Diwydiant Bwyd a Diod.</p>
<p>7.</p>	<p>Bwrdd y Dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd nesaf • Y broses ail-benodi <p style="text-align: right;">Andy Richardson</p> <p>Agorodd (AR) drwy ddweud ei fod yn teimlo bod angen gwell dealltwriaeth o'r sgiliau y bydd eu hangen ar aelodau nesaf y Bwrdd i gyflawni ar gyfer y diwydiant bwyd mewn cyfnod sy'n debygol o fod yn heriol, ar ôl Brexit, ac yng nghyd-destun amcanion Cynllun Gweithredu 2 hefyd.</p> <p>Mae penodiadau ar gyfer y flwyddyn hon wedi cael eu trosglwyddo ymlaen, a gan ein bod yn y bedwaredd flwyddyn, bydd cyfle i aelodau presennol y Bwrdd ail-ymgeisio; roedd y cadeirydd yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb a'u hymrwymiad i'r Bwrdd.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd beidio â chofrestru ar gyfer Dogfen y Ffederasiwn Bwyd a Diod, a oedd wedi'i rhannu'n ddiweddar, gan gredu nad oedd yn rhan o gylch gwaith y Bwrdd. Gan edrych i'r dyfodol, mae angen i'r Cylch Gorchwyl egluro rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn gwbl glir.</p> <p>Roedd (JW) yn teimlo, gan fod y Bwrdd wedi'i benodi gan y Gweinidog, fod angen iddo esblygu i fod yn fath o gorff sy'n cynrychioli'r Ffederasiwn Bwyd a Diod. Byddai hynny'n golygu na fyddai'r Bwrdd yn cael ei benodi gan y Gweinidog. Nid oedd y model mwy annibynnol hwn yn cael ei ffafrio gan aelodau eraill y Bwrdd.</p> <p>Mae angen rhagor o eglurder ynghylch y cyfyngiadau sy'n berthnasol i Fwrdd a benodir gan Weinidog, a pha ddatganiadau cyhoeddus y gall eu gwneud.</p> <p>Roedd (HT) yn teimlo ei bod yn rhaid i ni barhau i fod yn gwbl "Atebol i Lywodraeth Cymru".</p>

	<p>Nododd (AM) fod y Cylch Gorchwyl wedi cael ei ysgrifennu cyn Brexit a bod angen adlewyrchu heriau Brexit wrth fynd ymlaen. Mae'r Gweinidog yn cefnogi'r Bwrdd Bwyd ac yn frwdfrydig yn ei gylch, ac mae'n awyddus iddo barhau.</p>
<p>8.</p>	<p>Rhaglen Parod am Fuddsoddiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad ar Gynhadleddau Buddsoddwyr (Cyflwyniad) <p style="text-align: right;">Andrew Martin Linda Grant (BIC) Alun Lewis (BIC)</p> <p>Cynhaliwyd y Gynhadledd gyntaf i Fuddsoddwyr ym mis Tachwedd 2016, gyda sawl cinio gyda'r nos. Mae (LC) wedi gweithio gyda (HT) a (AE) i geisio llunio rhaglen. Cynhaliwyd rhaglen beilot yn 2018, a rhoddwyd rhywfaint o arian i'r prosiect er mwyn gallu cynnal y rhaglen tan fis Medi 2019.</p> <p>Aeth (AL) dros yr hyn yr oedd y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad wedi'i gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf. Rhannwyd cyflwyniad yn y cyfarfod i'r rheini a oedd yn bresennol ac aeth (AL) drwy'r papurau'n fanwl. Yn gryno, mae'r rhaglen wedi cynnal nifer o gyfarfodydd 1:1 gyda busnesau unigol. Roedd nifer o weithdai a chyfarfodydd wedi'u trefnu gyda nifer o fuddsoddwyr, gan roi cyfle i fusnesau gwrdd â llawer o fuddsoddwyr yn y sector Bwyd a Diod. Nodwyd sawl enghraifft o feintiau ac amrywiaeth, a sut yr oedd BIC wedi ymgysylltu â'r cwmnïau hyn, h.y. amser buddsoddwyr, cyfrifyddiaeth, hwyluso cynllunio busnes. Roeddent wedi gweithio gyda chwmnïau ar faterion yn ymwneud ag olyniaeth hefyd. Bu cyfleoedd i ymgysylltu yn nigwyddiad Blas Cymru/Taste Wales 2019 hefyd, a oedd yn cynnwys llawer o fuddsoddwyr. Rhoddwyd dadansoddiad o staff a'u harbenigedd, a oedd yn cwmpasu rhan fawr o'r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru. Mae busnesau o bob maint wedi'u cynnwys, a nod BIC yw mynd ati i wella perfformiad busnesau drwy'r rhaglen.</p> <p>Mae'r rhaglen yn esblygu ac yn aeddfedu. Bydd (AM) yn cael cyfarfod â BIC Innovation ar 5^{ed} Awst i drafod y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad a'r Gynhadledd (Tachwedd 2019). Mae angen cadarnhau'r dyddiad a'r lleoliad. (HT) i ysgwyddo perchnogaeth dros hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £140k yn y rhaglen hon.</p>
<p>9.</p>	<p>Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cydweithio â rhaglenni cymorth</p> <p style="text-align: right;">Andy Richardson</p> <p>Bwyd a Diod Cymru – Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ddim yn rhan ohono. (JW)</p> <p>Cynhaliwyd Digwyddiad Clwstwr Bwyd yn ddiweddar gan Cywain ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Nid oedd unrhyw gysylltiad â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ac ni chafodd ei gydnabod, ond eto soniwyd</p>

	<p>am Gynllun Gweithredu 2. Mae angen i'r Bwrdd gael gwybod am yr holl ddigwyddiadau sydd ar y gweill er mwyn i aelodau allu gwneud nodyn yn eu dyddiaduron a threfnu i fod yn bresennol.</p> <p>Mae Cywain yn cynnwys 24 o swyddogion. Mae angen i Cywain ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â'r Bwrdd.</p> <p>Cytunodd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i gyfathrebu â chontractwyr a'u briffio ar rôl y Bwrdd, gan ei gwneud yn glir bod angen brandio digwyddiadau fel digwyddiadau Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd, neu ddim ond Llywodraeth Cymru.</p>
<p>10.</p>	<p>Enwau Bwyd Gwarchodedig (PFN)</p> <p style="text-align: right;">Alison Lea Wilson</p> <p>Diweddariad – (ALW) os na fydd cytundeb, bydd yr holl Enwau Bwyd Gwarchodedig yn y DU yn wynebu risg. Ar ôl Brexit, bydd Enwau Bwyd Gwarchodedig yn dal i gael eu gwarchod yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae angen datrys problemau ynghylch pŵer datganoledig a chyfrifoldebau arweiniol.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU yn gweithio ar gynllun newydd. Bydd cynhyrchion PFN yn dal i fod yn PFN yn y DU, a bydd ymgeiswyr newydd yn gwneud cais yn unol â chynllun newydd yn y DU. Mae DEFRA wedi sefydlu gweithgor, a Halen Môn yw'r unig gynhyrchydd o Gymru sy'n rhan ohono. Mae DEFRA wedi llunio briff a bydd yn rhannu dyluniadau gyda rhanddeiliaid. Bydd nifer o ddyluniadau i'w gweld yn fuan ar gyfer profion masnach a defnyddwyr. Mae (ALW) wedi gofyn i'r rhain gael eu rhannu gyda gweithgynhyrchwyr a gwasanaethau bwyd hefyd. Bydd y dyluniadau terfynol yn barod yn nes ymlaen yn y mis – Gorffennaf 2019, ac yna byddant yn cael eu mireinio a'u lansio ar 21^{ain} Hydref 2019.</p> <p>Ni fydd gan gynhyrchion unrhyw faneri. Bydd delweddau'n cyfleu'r amgylchedd (tir – môr – aer). Defnyddir lliwiau o safon, sef Du, Aur a Choch.</p> <p>Sioe Frenhinol Cymru – awgrymodd (ALW) y dylai Llywodraeth Cymru wahodd DEFRA i sôn am PFN yng Nghymru ar ddydd Mawrth 23^{ain} Gorffennaf rhwng 12.30pm a 1.30pm.</p> <p>Bydd digwyddiad PFN yn cael ei gynnal am 2:30pm gyda HCC ar y dydd Mawrth.</p> <p>Mae (ALW) wedi cael cais i eistedd ar banel DIT ac i drafod PFN o flaen cynulleidfa sydd wedi cael ei gwahodd. Bydd y panel yn trafod cyfleoedd i allforio a fydd yn cael eu galluogi a'u cefnogi gan Lywodraeth y DU. (ALW) i ystyried y gwahoddiad hwn ymhellach.</p>
<p>11.</p>	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Labeli Gwlad Tarddiad – Gwnaed yng Nghymru <p style="text-align: right;">Huw Thomas</p>

(HT) – rhannwyd papurau yn y cyfarfod ar ôl taith tîm polisïau Llywodraeth Cymru o amgylch safle Puffin fis Mehefin. Rhoddwyd cyflwyniad ar Puffin, ac o fewn y cyflwyniad hwn, trafodwyd gwaith Gwerth Cymreictod a pham mae Cwsmeriaid o Gymru yn dymuno prynu cynnyrch Cymreig ac ati. Yna cafwyd trafodaeth ar Frandio Gwlad Tarddiad / Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, gan gymharu hyn â gwaith tebyg sydd wedi cael ei wneud yn Awstralia. Cytunwyd ei bod yn rhaid i'r Bwrdd fod yn rhan ganolog o drafodaethau am frandiau. Mae tîm Llywodraeth Cymru yn edrych ar y sefyllfa ar ôl Brexit o ran cyfreithiau labelu, a'r negeseuon fydd yn angenrheidiol ar gyfer busnesau a defnyddwyr.

Rhoddodd (AM) y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun 'Gwnaed yng Nghymru' Croeso Cymru. Fel rhan o'r cynllun hwn, bydd detholiad bychan o gynhyrchion Cymreig eiconig, o bob sector gweithgynhyrchu, yn cael eu harddangos i'r byd. Bydd modd i Bwyd a Diod Cymru enwebu oddeutu 5 o gynhyrchion. Un enghraifft ragorol o hyn yw Japan House yn Llundain, lle mae cynhyrchion o Japan yn cael eu harddangos mewn ffordd ardderchog. Byddai modd gwneud rhywbeth tebyg yn Llundain, gyda rhestr o 10 brand eiconig o Gymru (5 ohonynt yn fwyd).

- **Rhaglen Datblygu Masnach**

Enfys Jones

Roedd cyflwyniad i fod i gael ei roi ond gan fod contractwyr y Sioe Frenhinol yn gweithio ar faes y Sioe dywedwyd y byddai cyflwyniad llawn yn cael ei roi yng nghyfarfod mis Hydref.

Felly rhoddwyd crynodeb o'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Yn dilyn llwyddiant Blas Cymru/Taste Wales a'i waddol, bydd hyn yn parhau yn y Lolfa Fusnes yn Sioe Frenhinol Cymru, ac yn cynnwys prynwyr hen a newydd eleni.

Dydd Gŵyl Dewi 2020 – contract i'w sicrhau ym mis Medi 2019 gyda'r bwriad o weithio gyda'r un canolfannau. Bydd Dydd Gŵyl Dewi 2020 yn cynnwys lansio'r Strategaeth Fwyd ac SBV o bosibl.

Mae cyfarfod ar droed gydag archfarchnad Morrisons.

Cinio'r Co-op yn y Lolfa Fusnes ar ddydd Llun y Sioe. Bydd prynwyr allweddol, y Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol.

Mae angen i Puffin (HT) a (JF) fod yn rhan o "Wythnos Cymru yn Llundain", a bydd hyn yn cael ei gysylltu â Dydd Gŵyl Dewi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â Borough Market er mwyn i ni gael ein siop ein hunain ar gyfer Bwyd a Diod o Gymru. Bydd hyn yn sefydlog, a bydd y siop ar agor ar ddydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn drwy gydol y flwyddyn.

	<p>Hon fydd y siop ranbarthol gyntaf erioed i gael lleoliad parhaol yn Borough Market. Bydd y cynhyrchwyr a'r cynhyrchion eang yn newid yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Nid oes dyddiad lansio wedi cael ei gadarnhau eto, ond y bwriad yw anelu at ddiwedd Hydref 2019.</p> <p>Cromen – mae Llywodraeth Cymru wedi prynu Cromen (dome). Bydd y gromen hon yn Japan yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn hyrwyddo Bwyd a Diod o Gymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ar Fwyd mewn Atyniadau i Ymwelwyr Alison Lea Wilson <p>Bydd hwn yn cael ei gyflwyno yn Sioe Frenhinol Cymru ar y dydd Mercher – mae angen i'r Bwrdd fod yn rhan o hyn. Mae angen i'r Tîm Polisïau roi gwahoddiad i'r Bwrdd i fod yn bresennol.</p>
<p>12.</p>	<p>Dyddiadau Cyfarfodydd 2019 16^{eg} Gorffennaf 2019 – Gogledd-ddwyrain Cymru: lleoliad i'w gadarnhau 16^{eg} Hydref 2019 – De-ddwyrain Cymru: lleoliad i'w gadarnhau Rhagfyr 2019 – dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau</p>
<p>13.</p>	<p>Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod daeth y cyfarfod i ben.</p>